DRAFT

**COFNODION CYFARFOD ANARFEROL Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 7FED AWST 2024**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Marc Lloyd Griffiths (Cadeirydd)

Morwenna Pugh

Mark Thomas

Peter Jones

Gareth Davies

Dafydd Dafis (ar Zoom)

Ellen Pugh, Dirprwy Glerc

Sioned Graham-Cameron, Clerc

**1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan Y Cynghorydd Dewi Prysor.

**2. Datgan Buddiannau**

Dywedodd Y Cynghorydd Peter Jones ei fod yn adnabod un o'r ymgeiswyr am y tendr garddio.

**3. Materion y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, ym marn y Cadeirydd**

Nid oedd unrhyw faterion o'r fath.

**4. Tendr Garddio**

Derbyniwyd un cais ar ôl y dyddiad cau, ac felly ni ystyriwyd hwnnw. Dywedodd y Cadeirydd yr hoffai gyfarfod yr ymgeiswyr i gyd yn y Parc ar gyfer y cyfweliad. Cynigiodd Y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh i'r perwyl hwnnw a chytunodd pawb. Cytunwyd cynnal y cyfweliadau am 12pm yn y Parc y dydd Mawrth canlynol.

**5. Yr Heddlu**

Cyflwynwyd gohebiaeth a dderbyniwyd gan yr Heddlu. Dywedodd Y Cynghorydd Dafydd Dafis bod yr ymateb yn siomedig ac na allai cynghorwyr gyfarfod yn ystod y dydd gan fod rhan fwyaf yn gweithio. Cynigiodd bod y Cyngor Tref yn anfon llythyr ac eiliodd Y Cynghorydd Mark Thomas a chytunodd pawb.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.30pm